# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 9fed o Hydref 2018 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:**
Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Evans, Barry Owen a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Wyn Jones, Garym Roberts, Eiddwen Merritt, Jocelyn Andrew a Gerallt Davies.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Medi a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Derbyniwyd difynbrysau oddiwrth tri o beintwyr lleol i drwsio a pheintio yr arwydd y Nerwen Gam a phaswyd i'w roi i Jody Costello. Cadarnhaodd y clerc fod yr hysbysfwrdd wedi ei archebu I'w roi ar wal tu allan i siop Dryslwyn.

**Materion Cynllunio:**
Dim.

**Safoni enwau lleoedd**
Derbyniwyd lythyr oddiwrth y Swyddog Rheoli yn son am yr argymelliad y Tim Safoni Enwau i newid 'Neuaddlwyd' i 'Neuadd-lwyd', paswyd gan y pwyllgor nad oeddent eisiau ei newid.

**Ymgynghoriad ar Heolydd sydd heb eu Mabwysiadu yng Nghymru:**
Dosbarthwyd yr ymgynghoriad hyn i'r pwyllgor, nid oedd gan y pwyllgor sylwadau ar y mater.

**Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft PACGA:**
Gofynwyd i'r pwyllgor ddarllen yr ymgynghoriad sydd ar ei gwefan a phasio sylwadau i'r clerc.
**Unrhyw Fater Arall:**
Darllenwyd lythyr a dderbyniwyd gan Grwp Cymuned Derwen Gam yn gofyn am ein cymeradwyaeth i osod arwyddion yn y pentref fydde'n hysbysu arwerthwyr nad yw'r pentrefwyr am dderbyn galwadau oer (cold calling) a'u rhoi ar arwyddion enwau'r pentref. Penderfynwyd i gymeradwyo ei cais ond y bydde rhaid iddynt gael caniatad yr adran briffyrdd i'w rhoi ar arwyddion enwau y pentref. Nodwyd gan y Cyng. Ruby Williams fod y coed sydd yn y 'layby' yn Ffosyffin yn rhy isel i'r ffordd ac yn beryglus i fodurwyr ac hefyd fod twll yn y ffordd tu allan i New Foundry, Bro Ddewi. Gofynwyd i'r clerc roi gwybod i'r Adran Briffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.35.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 6ed o Dachwedd.